



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development:  
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP)

# Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 a'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP)

## 1. Beth yw'r GDPR?

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn ddeddf newydd, ledled Ewrop sy'n disodli Deddf Diogelu Data 1998 yn y DU. Mae'n rhan o becyn o ddiwygiadau ehangach ar gyfer diogelu data sy'n cynnwys y Bil Diogelu Data. Mae deddfwriaeth GDPR yr UE yn anelu at sicrhau bod y cyfreithiau diogelu preifatrwydd ledled Ewrop yn gyson, yn ogystal â gwarchod unigolion yn well a rhoi mwy o hawliau iddynt.

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth amrywiol ganllawiau sy'n egluro'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y llawlyfr hwn ac yn rhoi cyngor mwy manwl i'r GDPR.

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

## 2. Ar gyfer pwy mae'r canllawiau?

Buddiolwyr h.y. unrhyw un sy'n rhan o'r broses o weithredu prosiect a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig.

## 3. Pwy sy'n rheoli ac yn prosesu'r data?

Ar gyfer y data y mae Llywodraeth Cymru am i fuddiolwyr ei gasglu (h.y yr hyn sydd wedi'i bennu yn Adran 4), Llywodraeth Cymru yw'r rheolwr data. Os ydych chi, fel y Grŵp Gweithredu Lleol/buddiolwr, yn casglu unrhyw ddata personol arall sydd ddim ei angen ar Lywodraeth Cymru, yna chi fyddai'r rheolwr data ar gyfer y data hwnnw.

Mae'n bosibl cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i Lywodraeth Cymru ar [DataProtectionOfficer@gov.wales](mailto:DataProtectionOfficer@gov.wales).

Fel buddiolwr, chi fyddai'r prosesydd data ar gyfer y data sydd angen ichi ei gasglu i ni. Byddai unrhyw drydydd parti yr ydych chi neu ni yn casglu data ar eu cyfer hefyd yn broseswyr data.

## 4. Pa ddata y mae hyn yn ei gynnwys?

**Data Monitro** - Mae hyn yn cynnwys data ar lefel cyfranogwr unigol a data ar lefel Menter ar gyfer unigolion neu fusnesau sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Ar gyfer gweddill y ddogfen hon, pan fyddwn yn cyfeirio at 'gyfranogwyr', rydym yn golygu cyfranogwyr neu unigolion sy'n cael eu cefnogi o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig a mentrau sy'n cael eu cefnogi yr ydym yn casglu manylion cyswllt at ddibenion monitro a gwerthuso.

## 5. Ar gyfer beth mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data?

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data monitro (gan gynnwys cofnodion cyfranogwr unigol) i fonitro a gwerthuso y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru fel a amlinellir yn y Cynllun Gwerthuso. Er enghraifft, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu arolygon o gyfranogwyr sy'n cael eu cefnogi o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu cofnodion cyfranogwyr gyda gwybodaeth arall sy'n cael ei gadw amdanynt sydd gan adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU - am ragor o wybodaeth, gweler Adran 6, isod. Efallai eich bod hefyd am ddefnyddio'r data i werthuso cynlluniau neu i werthuso eich Grŵp Gweithredu Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth ar gymhwysedd i sicrhau bod cyfranogwyr yn gymwys.

## **6. Â phwy fyddwn ni'n rhannu'ch data?**

Byddwn yn rhannu'r data monitro (gan gynnwys cofnodion y cyfranogwr unigol) gyda sefydliadau ymchwil sy'n cyfweld y cyfranogwyr. I helpu inni ddeall pa mor effeithiol yw'r rhaglenni, efallai y byddwn yn rhannu manylion cyswllt y cyfranogwyr gyda sefydliadau ymchwil fel y gallent drafod eu profiadau gyda hwy. Ni fyddwn yn cysylltu â phawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Os bydd cyfranogwr yn cysylltu ag ymchwilwyr, byddwn yn egluro pwrpas y gwaith ymchwil i'r unigolyn a byddant yn cael yr opsiwn i beidio â chymryd rhan yn yr ymchwil. Bydd y sefydliadau ymchwil yn dileu manylion cyswllt y cyfranogwyr unwaith y bydd y gwaith ymchwil wedi'i gwblhau.

Er mwyn cynnal y gwaith ymchwil efallai y byddwn yn cysylltu cofnodion y cyfranogwyr o'r data monitro gyda gwybodaeth arall yn eu cylch sydd gan adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gallai hyn gynnwys setiau data Deilliannau Addysgol Hydredol, data Gyrfa Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, cofnodion gan CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau, Arolwg y Gweithlu, Arolwg y Llafur, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cyfranogwyr ESF. Caiff hyn ei wneud at ddibenion gwerthuso effaith cymorth y Rhaglen Datblygu Gwledig ar y bobl gymerodd ran a gwaith ymchwil ar bynciau cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru neu sefydliadau ymchwil cymdeithasol. Ni fyddwn fyth yn cyhoeddi gwybodaeth a fyddai'n golygu bod modd adnabod unrhyw unigolyn.

Bydd data monitro (gan gynnwys cofnodion y cyfranogwr unigol) yn cael ei rannu hefyd gyda thimau perthnasol Llywodraeth Cymru ac archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod y prosiect wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac i sicrhau bod yr hawliadau'n ddilys. Bydd yr wybodaeth am gymhwystra hefyd yn cael ei rannu gyda'r timau hyn at ddibenion o'r fath. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r data monitro a'r wybodaeth am fod yn gymwys gydag archwilwyr annibynnol.

## **7. Beth yw'r sail gyfreithiol dros reoli neu brosesu data personol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig?**

Mae Erthygl 6(1)(e) y GDPR yn rhoi sail gyfreithiol ichi ar gyfer prosesu data personol ble:

"Mae angen prosesu eich data personol ar gyfer perfformio tasg a wneir er budd cyhoeddus neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol a freinir yn y rheolwr"

## **8. Beth yw'r dasg?**

**Gweithredu Cronfeydd Strwythurol yn unol â rheoliadau Senedd Ewrop a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd.**

Mae Erthygl 54(2) RHEOLIAD Rhif 1303/2013 (EU) darpariaethau cyffredin ar Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (Rheoliad CPR) yn datgan y bydd "Aelod Wladwriaethau yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynnal gwerthusiadau, a byddant yn sicrhau bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu i gynhyrchu a chasglu y data sydd ei angen ar gyfer gwerthusiadau, gan gynnwys data sy'n gysylltiedig â dangosyddion cyffredin, a phan y bo'n briodol ddangosyddion sy'n benodol i'r rhaglen."

Hefyd, caiff data ei gasglu sy'n gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg i sicrhau y gall y Rhaglen ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## **9. Beth am Ddata Personol Sensitif?**

Mae'r GDPR yn cydnabod bod rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif, ac felly bod angen eu gwarchod yn well. Caiff hyn ei alw yn 'ddata categori arbennig'.

Yr unig ddata categori arbennig yr ydym yn gofyn i fuddiolwyr ei gasglu yw y data ar Ethnigrwydd / a ydynt o gefndir Ethnig Du a Lleiafrifol; Statws Mudwyr; Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Iechyd; ac Anabledd. Er mwyn prosesu y data categori arbennig, mae angen inni fodloni amod penodol o dan Erthygl 9 y GDPR. Rydym yn defnyddio amod categori arbennig (g), h.y.:

"mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaethau a fydd yn gymesur â'r nod yr eir ar ei drywydd, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelwch data ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol ar waith i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion gwrthrych y data"

Yn unol â hyn mae'r data hwn yn helpu inni sicrhau cyfranogiad teg o bob rhan o gymdeithas yn y Rhaglenni sy'n cael eu hariannu o Ewrop yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ar gyfer y data categori arbennig hwn rydym yn awgrymu bod y buddiolwyr yn rhoi yr opsiwn i'r cyfranogwyr 'ddewis peidio dweud' ar gyfer y mathau hyn o ddata fel y gallent ddewis i beidio â darparu'r data hwn os ydynt yn dymuno hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid ichi geisio casglu'r data, e.e. drwy sicrhau bod unrhyw ffurflenni cofrestru ac ati yn gofyn am yr wybodaeth hon.

Pan fydd y data yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil, ni fydd data y mae modd ei adnabod yn cael ei gyhoeddi heb gydsyniad penodol gan yr unigolyn; er enghraifft mewn astudiaethau achos.

## **10. Pa hawliau sydd gan gyfranogwyr mewn cysylltiad â'u data?**

O dan y GDPR, mae gan unigolion amrywiol hawliau sy'n gysylltiedig â'u data. Fodd bynnag, mae rhai o'r hawliau hyn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol yr ydym yn ei ddefnyddio i brosesu eu data. Caiff hawliau cyfranogwyr eu trafod yn fyr isod. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn edrych ar wefan ICO i sicrhau eich bod yn deall yr hawliau hyn yn llawn.

(a) Yr hawl i gael gwybod

Rhaid ichi roi'r wybodaeth ganlydol i'r cyfranogwyr: eich sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data (gwefan ICO gweler Adran 7 y canllaw hwn); eich dibenion ar gyfer prosesu eu data personol (gweler Adran 5); eich cyfnodau cadw ar gyfer data personol (gweler Adran 11); gyda pwy fyddwch yn ei rannu (gweler Adran 6); enw a manylion cyswllt y rheolwr data a manylon cyswllt y Swyddog Diogelu Data (gweler Adran 3); a hawliau'r cyfranogwyr yn gysylltiedig â'u data (yr adran hon). Dylech nodi hyn mewn Hysbysiad Preifatrwydd.

(b) Hawl mynediad

Mae gan gyfranogwyr yr hawl i gael mynediad i'w data personol sydd gennych chi / ni amdanynt.

(c) Yr hawl i'w gywiro

Mae gan gyfranogwyr yr hawl i gywiro data personol anghywir amdanynt, neu ei gwblhau os nad yw wedi'i gwblhau. Gall gyfranogwyr wneud cais i gywiro hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig.

#### (d) Yr hawl i ddileu

Mae'r hawl i ddileu yn cael ei alw hefyd yn 'yr hawl i'w anghofio' ac, mewn rhai amgylchiadau, yn rhoi yr hawl i unigolion ddileu eu data personol. Ar y cyfan, nid oes gan y cyfranogwyr yr hawl i ddileu data gan nad yw'r hawl hwn yn berthnasol os yn defnyddio'r sail gyfreithiol ar gyfer tasg gyhoeddus. Yr unig amgylchiadau fyddai hyn yn berthnasol fyddai pan nad yw data personol cyfranogwyr yn angenrheidiol bellach at y dibenion y gwnaethoch ei gasglu neu ei brosesu yn wreiddiol, neu os ydych wedi prosesu'r data personol yn anghyfreithlon. Ni ddylai yr un o'r amgylchiadau hyn godi gan mai dim ond am gyfnodau cadw Llywodraeth Cymru y dylid cadw data personol (os nad ydych yn gallu cyfiawnhau ei gadw am gyfnod hwy) a bwriad y canllaw hwn yw helpu buddiolwyr sicrhau eu bod yn prosesu y data personol yn gyfreithiol.

#### (e) Yr hawl i gyfyngu ar y prosesu

Mae gan gyfranogwyr yr hawl i ofyn i'w data personol gael ei gyfyngu neu ei gadw yn ôl yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r cyfranogwr yn anghytuno â chywirdeb eu data personol a rydych wrthi'n dilysu cywirdeb y data;
- bod y data wedi ei brosesu'n anghyfreithlon a bod y cyfranogwr yn gwrthwynebu ei ddileu ac yn gofyn am ei gyfyngu yn lle hynny;
- nad ydych angen y data personol bellach ond mae angen i'r cyfranogwr ei gadw er mwyn sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawl cyfreithiol; neu
- mae'r unigolyn wedi defnyddio eu hawl i wrthwynebu (g) y ffaith eich bod yn prosesu eu data, a rydych yn ystyried a yw eich sail gyfreithiol yn gryfach na sail y cyfranogwyr.

Mae'n annhebygol iawn y bydd yr amgylchiadau hyn yn codi.

#### (f) Yr hawl i symud data

Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i unigolion gael ac ail-ddefnyddio y data personol at eu dibenion eu hunain ar draws gwahanol wasanaethau. Mae'r hawl i gludadwyedd data ond yn berthnasol pan mai eich sail gyfreithiol i brosesu'r wybodaeth hon fydd cydsynio i, neu berfformiad contract; a rydych yn cyflawni'r prosesu yn awtomatig (h.y. heb ddefnyddio ffeiliau papur). Felly nid oes gan y cyfranogwyr yr hawl i gludadwyedd data.

#### (g) Yr hawl i wrthwynebu

Mae gan gyfranogwyr yr hawl i wrthwynebu i brosesu eu data personol. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi rhesymau penodol iddynt pam eu bod yn gwrthwynebu prosesu eu data a gallwch chi / ni barhau i brosesu os y cawn ddangos rhesymau cryf cyfreithiol dros brosesu, sy'n drech na buddiannau, hawliau a rhyddid yr unigolyn. Mae'r ICO yn cynghori ein bod yn ystyried unrhyw wrthwynebiad ar eu teilyngdod eu hunain, yn hytrach na gwrthod yn gyfan gwbl.

Os bydd un o'ch cyfranogwyr yn ymarfer eu hawl i wrthwynebu i brosesu eu data personol, cysylltwch â SMU / RPW am ragor o wybodaeth. Yn ymarferol, er na fyddwn efallai yn cytuno i roi'r gorau i brosesu'r data fel rhan o'n proses wirio ynghylch pa mor gymwys yw cyfranogwr, efallai y byddwn yn cytuno i eithrio'r cyfranogwr o unrhyw waith ymchwil maes (e.e. arolygon) neu unrhyw gysylltu data at ddibenion ymchwil.

(f) Hawliau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau awtomatig a chreu proffil

Mae'r hawliau hyn yn gysylltiedig â chreu penderfyniad unigol yn awtomatig (gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomatig yn unig heb unrhyw gyfraniad dynol); a chreu proffil (prosesu data personol yn awtomatig i werthuso pethau penodol ynghylch unigolyn). Ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomatig na chreu proffiliau ac ni fyddwn yn gofyn ichi wneud hynny ychwaith felly nid yw'r hawliau hyn yn berthnasol. Os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw benderfyniad awtomatig neu greu proffil yn seiliedig ar y data rydym yn gofyn ichi ei gasglu, mae'n rhaid ichi sicrhau hawliau cyfranogwyr yn y maes hwn.

#### **11. Beth yw'r cyfnod cadw data?**

**Yn unol ag Erthygl 140 Rheoliad 1303/2013 bydd y data yn cael ei gadw tan o leiaf 31 Rhagfyr 2026.**

#### **12. Beth am ddata ychwanegol?**

**Os ydych yn casglu gwybodaeth ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei bennu yn Adran 4 yna mae angen ichi sicrhau eich bod yn bodloni y gofynion sydd wedi'u hamlinellu yn y GDPR.**

#### **13. Beth os wyf am ddefnyddio'r data yn Adran 4 at ddibenion eraill?**

**Os ydych am ddefnyddio'r data yn Adran 4 at ddibenion eraill ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi yn Adran 5 (h.y. ar wahân i fonitro, ymchwil a gwerthuso neu ar gyfer cadarnhau a yw rhywun yn gymwys am gymorth) yna mae angen ichi sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion a bennwyd yn y GDPR.**